**Tasg 1**

# Blas ar fyw

## Llun a gair

Mae'n bosib bwyta llawer o ddarnau gwahanol ac eithaf annisgwyl o anifeiliaid fferm. Mewn grŵp, beth am gysylltu'r lluniau a'r geiriau isod?



















| | | |
|---|---|---|
| **AREN** | **CALON** | **CLUSTIAU MOCHYN** |
| **TAFOD** | **AFU/IAU** | **TRAED MOCHYN** |
| **TRWYN MOCHYN** | **TREIP** | **CYNFFON EIDION** |

- Faint ohonyn nhw fyddech chi’n hoffi eu trio?
- Beth am holi gweddill y grŵp am eu barn nhw?
- Beth am greu graff bar i ddangos pa fwydydd yw’r mwyaf poblogaidd ymysg gweddill y dosbarth? Bydd angen rhoi enwau’r bwydydd gwahanol ar hyd gwaelod y graff a’r nifer sy’n eu hoffi neu a fyddai’n barod i’w trio i fyny’r ochr.
- Beth am dynnu llun neu ysgrifennu rysáit ar gyfer dy hoff fwyd di?